**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol dan y teitl - Gofal Preswyl i Bobl Hŷn yng Nghymru**

**Chwefror 2013**

---

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r adroddiad a gynhyrchwyd gan y Pwyllgor yn dilyn ei ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn yng Nghymru, a gymerodd flwyddyn i'w gwblhau. Mae canfyddiadau'r Pwyllgor, ynghyd â'i gyfres o argymhellion a chasgliadau, yn cydymffurfio â pholisi presennol Llywodraeth Cymru a'r ddeddfwriaeth sydd ar y gweill yn y maes hwn, ar y cyfan. Bydd yr adroddiad felly'n helpu i roi ffocws a chyfeiriad wrth fynd i'r afael â nifer o broblemau a phryderon allweddol y mae unigolion sy'n byw, neu sy'n ystyried byw mewn gofal preswyl, yn eu hwynebu. Bydd yr adroddiad hefyd yn helpu ein nod cyffredinol o sicrhau bod gan bobl hŷn, eu teuluoedd a'u gofalwyr, fwy o lais a rheolaeth dros eu hanghenion gofal a'u bod yn gallu manteisio ar yr wybodaeth, y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i wneud penderfyniadau gwybodus am y mater.

Mae gwasanaethau cymdeithasol wrth wraidd bywyd cyhoeddus Cymru, ac yn cefnogi tua 150,000 o bobl bob blwyddyn i wireddu eu potensial a'u helpu i aros yn annibynnol ac yn ddiogel. Mae'r newidiadau demograffig ym mhoblogaeth Cymru, a'r ffaith bod anghenion, dyheadau a disgwyliadau pobl hŷn hefyd yn newid yn golygu bod angen i ni ddal i fyny â hyn. Mae'r bobl hŷn eu hunain eisiau byw bywydau annibynnol a llawn yn eu cymunedau eu hunain am gyhyd â phosibl. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r dymuniad hwn drwy annog comisiynwyr gwasanaethau a darparwyr gwasanaethau i ddatblygu sector gofal hyblyg ac amrywiol sy'n ateb y diben ac yn ymateb i anghenion ein poblogaeth newidiol.

Yn y blynyddoedd diweddar rydym wedi bwrw ati â nifer o ddatblygiadau strategol gyda'r nod o gynorthwyo rhagor o bobl hŷn i fyw yn y gymuned drwy fentrau a mesurau ataliol y gellir eu darparu'n lleol. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu gwasanaethau ail-alluogi, teleofal, gwasanaethau cymunedol ac offer.

Bydd gofal preswyl yn parhau i chwarae rhan annatod wrth ddarparu gofal a llety diogel a chefnogol i nifer o bobl hŷn nad ydynt yn gallu byw yn annibynnol mwyach, neu sy'n dymuno peidio. Ond mae gofal preswyl heddiw yn wahanol iawn i'r math o ofal oedd yn bodoli ddegawd yn ôl, neu'r math y bydd ei angen mewn deng mlynedd a mwy. Rydym eisoes yn gweld mathau newydd o lety preswyl a chyfleusterau yn dod i'r amlwg.

Mae ein Papur Gwyn - *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu* - yn amlinellu agenda hirdymor Llywodraeth Cymru i sicrhau newid. Mae ein hymateb i nifer o'r argymhellion a'r casgliadau a gaiff eu cynnwys yn adroddiad y Pwyllgor yn tynnu sylw at y gwahanol fentrau a rhaglenni sydd eisoes yn cael eu datblygu a'u gweithredu fel rhan o hyn. Yn

ogystal â chydnabod a helpu i ymateb i anghenion pobl hŷn mewn gofal, mae’r rhain hefyd yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â chyngor a manteisio ar ofal, ac yn mynd i'r afael ag anghenion gofalwyr a datblygu'r gweithlu hefyd. Ni ellir sicrhau newid llawn heb ymrwymiad ein partneriaid ym maes gofal cymdeithasol a'r GIG, wrth gwrs, ac felly mae deddfwriaeth a pholisïau’n cael eu datblygu mewn partneriaeth â'r rhain a rhanddeiliaid eraill.

Mae Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn gweithredu amcanion y polisi a amlinellir yn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy* ac mae'n amlinellu ymateb Llywodraeth Cymru i'r heriau mawr y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn eu hwynebu o ganlyniad i newidiadau demograffig a newidiadau eraill. Wrth wraidd y Bil mae gwella'r canlyniadau lles ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth, ac ar gyfer gofalwyr sydd angen cymorth, ynghyd â diwygio fframwaith cyfreithiol presennol y gwasanaethau cymdeithasol yn helaeth. Bydd y diwygiadau hyn yn rhoi pobl wrth wraidd y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt ac yn rhoi mwy o reolaeth iddynt dros eu bywydau. Bydd mwy o bwyslais ar ymyrryd ac atal yn fuan ac ar annibyniaeth yn hytrach na dibyniaeth. Bydd y Bil felly yn rhan o'r llwyfan a fydd yn sail i gyflawni nifer o'r argymhellion a'r casgliadau yn Adroddiad y Pwyllgor.

Mae datblygu Papur Gwyn ar Reoleiddio ac Arolygu hefyd yn bwysig iawn, ac rydym wedi ymrwymo i'w gyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

Amlinellir yr ymatebion manwl i'r argymhellion a'r casgliadau a wneir yn yr adroddiad ar y tudalennau canlynol.

**Prif argymhelliad 1:** Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau bod pobl hŷn yng Nghymru yn gallu cael gafael ar eiriolaeth effeithiol. Credwn fod hyn yn arbennig o bwysig i'r bobl hŷn hynny sydd:

- yn yr ysbyty a'i bod yn debygol y bydd gofyn iddynt gael gofal cymdeithasol parhaus; neu
- yn preswylio mewn cartref gofal y mae perygl iddo gau.

**Ymateb:** Derbyn

Yn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu* ymrwymwyd i ddatblygu achos busnes ar gyfer ymestyn a ffurfioli'r gwasanaethau eirioli a gaiff eu darparu'n benodol ar gyfer pobl hŷn. Mae nifer o adroddiadau gan Age Cymru, a'r Comisiynydd Pobl Hŷn yn fwyaf diweddar, wedi edrych ar ddarparu gwasanaethau eirioli ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru.

Bydd y cyfle i ddatblygu gwasanaeth o'r fath yn seiliedig ar ganlyniad amcanion cysylltiedig eraill yn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy,* gan gynnwys materion megis a yw cyngor a gwybodaeth ar gael a'r meini prawf trothwy cenedlaethol sydd wedi'u pennu i asesu angen a mynediad at gymorth gofal cymdeithasol.

Mae *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy* a Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cyflwyno diwygiadau i roi mwy o lais a rheolaeth i ddefnyddwyr dros y gwasanaethau maent yn eu derbyn. Mae sicrhau bod rhagor o bobl yn manteisio ar wasanaethau eirioli yn un o nifer o ffyrdd pwysig o gyflawni'r amcan hwnnw a bydd yn seiliedig ar ein model eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc.

**Goblygiadau Ariannol:** Mae'r Bil yn ymwneud â gwella ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru ac nid oes disgwyl iddo gynyddu costau darparu gwasanaethau. Nid yw'n golygu gwneud yr un pethau yn wahanol, ond gwneud gwahanol bethau os ydym am ddarparu gwasanaethau sy'n gynaliadwy yn y tymor hir.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Bil drafft yn amlinellu nifer o'r costau arfaethedig sy'n gysylltiedig â'i weithredu. Mae hefyd yn nodi meysydd eraill y gall fod angen gwario arnynt, fel hyfforddi'r gweithlu a lledaenu gwybodaeth, a chostau pontio Llywodraeth Cymru.

Gellir gweld y Bil drafft a'r dogfennau cysylltiedig drwy'r ddolen isod:
http://www.senedd.assemblywales.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=5664

**Prif argymhelliad 2:** Dylid gwneud rhagor i ddarparu cyngor a gwybodaeth i helpu pobl hŷn, eu teuluoedd a'u gofalwyr wrth iddynt benderfynu ynghylch eu

| |
|---|
| gofal tymor hir. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ad-drefnu eu cyllidebau presennol er mwyn creu gwasanaeth gwybodaeth syml. Dylai'r gwasanaeth hwn gynnig gwybodaeth syml, amserol, hygyrch a hawdd ei defnyddio i bobl hŷn, i deuluoedd ac i ofalwyr. Dylid rhoi gwybod i bob gweithiwr proffesiynol ac i bobl eraill sy'n rhoi cymorth i'r henoed am y cyngor a'r wybodaeth sydd ar gael er mwyn iddynt allu cyfeirio pobl hŷn atynt ar yr adeg y bydd eu hangen fwyaf arnynt. |
| **Ymateb:** Derbyn |
| Mae Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol, gyda'r byrddau iechyd yn hwyluso, i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i helpu pobl i ddeall sut y mae'r system gofal a chymorth yn gweithio, pa wasanaethau sydd ar gael yn lleol, a sut i fanteisio ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt nawr ac yn y dyfodol. Mewn rhai achosion rhaid i awdurdodau lleol hefyd gynorthwyo pobl i fanteisio ar ofal a chymorth.<br><br>Mae'r ddyletswydd newydd hon hefyd yn cynnwys gwybodaeth, cyngor a chymorth mewn perthynas â chefnogi gofalwyr. Mae sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn hawdd i ofalwyr wedi bod yn amcan polisi allweddol erioed. Cafodd y polisi ei fynegi ym Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010 ond bydd y darpariaethau yn y Bil yn datblygu'r darpariaethau yn y Mesur ac yn mynd gam ymhellach. |
| **Goblygiadau Ariannol:** Gweler y goblygiadau ariannol o dan argymhelliad 1. |

| |
|---|
| **Prif argymhelliad 3:** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod awdurdodau lleol yn cynnig asesu anghenion yr holl bobl hŷn sy'n ystyried mynd i ofal preswyl. Dylai hyn gynnwys y rheini sydd ag adnoddau digonol i dalu am eu gofal eu hunain yn benodol. Byddai gofyniad i gynnig asesu anghenion pobl cyn cynnal asesiad ariannol yn sicrhau bod y rheini sydd ag adnoddau sydd yn fwy na'r trothwy cymorth presennol yn cael digon o wybodaeth a chyngor i wneud penderfyniadau priodol ynglŷn â gofal tymor hir. |
| **Ymateb:** Derbyn |
| Mae'r bwriad i sicrhau bod pobl yn cael eu grymuso i gadw rheolaeth dros eu sefyllfa a chyflawni'r canlyniadau sy'n bwysig iddynt wrth wraidd Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Bydd y prosesau craidd a ragwelir yn y Bil yn rhoi hawl asesu sy'n cyfateb i anghenion pob unigolyn. O'r cyswllt cyntaf bydd pob trafodaeth â phobl yn eu grymuso i drafod y canlyniadau maent yn dymuno eu cyflawni a sut y gall y gwasanaethau sydd ar gael eu helpu i wneud hynny. Yn arbennig, bydd y rheini sydd angen cefnogaeth ychwanegol, gan gynnwys y rheini sy'n ariannu eu gofal eu hunain, yn cael help i ddeall yr ystod o wasanaethau sydd ar gael ac i benderfynu pa fath o ofal a chymorth fyddai orau er mwyn diwallu eu hanghenion a'u dyheadau o ran llesiant. |

**Goblygiadau Ariannol:** Gweler y goblygiadau ariannol o dan argymhelliad 1.

**Prif argymhelliad 4:** Rhaid i'r GIG yng Nghymru wneud rhagor i sicrhau bod y cyflyrau cyffredin sy'n anablu pobl hŷn - megis anymataledd, ymadfer ar ôl strôc, cwympiadau a dementia - yn cael eu rheoli a'u trin yn fwy effeithiol yn y gymuned. Credwn y bydd hyn yn lliniaru eu heffaith ac yn ei gwneud yn llai tebygol y bydd cyflyrau fel hyn yn sbarduno'r angen i bobl hŷn orfod cael gofal tymor hir.

**Ymateb:** Derbyn

Mae ein prif ddogfennau polisi, *Law yn Llaw at Iechyd* a *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu,* yn adlewyrchu gweledigaeth Llywodraeth Cymru a'r canlyniadau y mae am eu sicrhau o ran iechyd ac annibyniaeth pob person yng Nghymru, beth bynnag fo'i amgylchiadau neu ble bynnag y mae'n byw yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod pobl hŷn yn cael y gofal a'r cymorth cywir.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi ystod o Gynlluniau Cyflawni mwy manwl ar gyfer gwahanol gyflyrau, sy'n amlinellu beth y mae disgwyl i'r GIG a'i bartneriaid ei gyflawni erbyn 2016.

Bydd y Cynllun Gofal Integredig Lleol, sydd wrthi'n cael ei ddatblygu, yn canolbwyntio ar rôl gofal sylfaenol a gwasanaethau cymunedol o fewn y system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach. Unwaith eto, bydd hyn yn cynnwys yr angen i sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu darparu i bawb ar lefel leol, yn enwedig y rheini sy'n fregus ac yn agored i niwed.

Mae *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl* yn ategu *Gweledigaeth Genedlaethol Cymru ar Ddementia.* Mae hwn yn hybu'r neges y dylai pobl â dementia a'u gofalwyr fyw mewn cymunedau sy'n eu cefnogi, ac y dylent gael y driniaeth gywir, yn y lle cywir ar gyfer eu hanghenion. Rydym wedi buddsoddi mewn ystod o fesurau yn y blynyddoedd diweddar, a gynlluniwyd i godi ymwybyddiaeth, gwella safonau gofal ym mhob lleoliad a datblygu ein dealltwriaeth o achosion ac effeithiau dementia.

O dan y 'Model Pobl' sy'n sail i Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), y bwriad yw sicrhau bod awdurdodau lleol, gan weithio gyda phartneriaid eraill, yn darparu 'canolfannau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth' (IAA). Bydd y rhain yn adnodd i weithwyr proffesiynol ac i'r cyhoedd wrth nodi a chyfeirio'r rheini sydd angen gofal a chymorth at ystod o wasanaethau ataliol.

Y canolfannau hyn fydd y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer unigolion sydd am fanteisio ar ystod o wybodaeth a chyngor ar wasanaethau a ddarperir yn lleol gan yr holl ddarparwyr: awdurdodau lleol, byrddau iechyd a'r trydydd sector. Bydd gweithwyr proffesiynol medrus yn gweithio yn y canolfannau hyn, a bydd y

| |
|---|
| gwasanaeth y ceisio darparu ymateb wedi'i deilwra i gleientiaid, yn aelodau'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol fel ei gilydd. Drwy gynnig popeth mewn un man, bydd ymarferwyr sy'n gweithio yn y canolfannau yn ceisio helpu cleientiaid i ddeall sut y mae'r system gofal a chymorth yn gweithio a'u helpu i fynegi eu problemau a pha ganlyniadau y maent yn dymuno eu cyflawni, er mwyn rhoi amrywiaeth o ymatebion cymesur ar waith. Bydd y canolfannau hyn hefyd yn gweithredu fel gwasanaeth cynghori ac ymgynghori i weithwyr proffesiynol sydd eisiau arweiniad a chyngor. |
| **Goblygiadau Ariannol:** Mae'r Cynllun Gofal Integredig Lleol wrthi'n cael ei ddatblygu ac mae trafodaethau ar oblygiadau ariannol yn mynd rhagddynt. Ond mae'r ffocws ar ddefnyddio adnoddau presennol yn fwy effeithiol.<br><br>Mae £1.5 miliwn bellach ar gael bob blwyddyn i ddatblygu gwasanaethau dementia yn y gymuned a gwasanaethau ar gyfer dementia cynnar.<br><br>Mae'r cynigion ar gyfer canolfannau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn cyd-fynd â'r goblygiadau ariannol o dan argymhelliad 1. |

| |
|---|
| **Prif argymhelliad 5:** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pobl hŷn bob tro'n cael cynnig cyfnod o ail-alluogi neu ofal canolraddol ar ôl cyfnod o salwch, yn enwedig pan fyddant wedi cael triniaeth mewn ysbyty. Wrth benderfynu ynglŷn â gofal, dylid ystyried yn llawn faint o botensial sydd gan rywun i gynnal a chryfhau eu hannibyniaeth. Ni ddylai neb fynd yn syth i ofal preswyl parhaol o'r ysbyty. At hynny, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau er mwyn i awdurdodau lleol a byrddau iechyd ddiffinio ail-alluogi'n fwy clir ac yn fwy cyson. Credwn y bydd hyn o gymorth inni sicrhau bod data ystyrlon yn cael eu casglu i fesur canlyniadau ac i sbarduno gwelliannau. |
| **Ymateb:** Derbyn |
| Mae'r syniad o gadw annibyniaeth wrth wraidd *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu*. Un o'i brif ymrwymiadau yw bod awdurdodau lleol yn sicrhau bod ail-alluogi yn rhan o'u cynlluniau gweithredu gwasanaethau cymdeithasol. Mae gwasanaethau lefel isel sy'n seiliedig ar unigolyn sy'n agored i risg, ei anghenion a'i ddyheadau, yn rhan bwysig o'n hymrwymiad i ddatblygu dulliau gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Byddwn hefyd yn cytuno ar beth mae ail-alluogi yn ei olygu ar lefel Cymru gyfan ac yn ei gwneud yn ofynnol i sicrhau bod ail-alluogi yn rhan allweddol o Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).<br><br>Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyhoeddi canllawiau atodol i *Gyfarwyddiadau Dewis Llety 1993,* sy'n ymdrin yn benodol â'r gweithdrefnau i'w dilyn wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty i leoliad gofal. Mae'r canllawiau yn pennu egwyddor sylfaenol na ddylai pobl gael eu rhyddhau yn uniongyrchol ar ôl cyfnod aciwt o ofal yn yr ysbyty i leoliad cartref gofal parhaol ac y dylid ystyried opsiynau |

gofal eraill yn gyntaf.

**Goblygiadau Ariannol:** Bydd costau'r rhaglen newidiadau sy'n rhan o *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu* yn cael eu talu o gyllidebau presennol. Caiff yr arian ei ryddhau drwy ailbennu blaenoriaethau ar gyfer gwario a thargedu buddsoddiadau at ddarparu gwasanaethau ataliol ac ail-alluogi. Rydym yn ystyried amryw o fodelau i gyflawni'r uchelgais hon, gan gynnwys mentrau cymdeithasol.

**Prif argymhelliad 6:** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'i phartneriaid i ddatblygu cynlluniau newydd sy’n rhoi mwy o lais a rheolaeth i breswylwyr, i'w teuluoedd ac i'w gofalwyr. Nod hyn fyddai dylanwadu ar siâp a thrywydd gwasanaethau a rhoi pwysau parhaus ar ansawdd y gwasanaeth. Pan fydd cartref gofal unigol yn cyrraedd maint penodol (i'w bennu gan Lywodraeth Cymru drwy ymgynghori â'r sector), dylai fod yn rhaid iddo gael fforwm i breswylwyr a theuluoedd/gofalwyr yn y cartref. Gellid cynnwys trefniadau o'r fath yn y contractau y bydd comisiynwyr gwasanaethau'n eu rhoi i ddarparwyr.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Mae *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu* a Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cyflwyno diwygiadau i roi mwy o lais a rheolaeth i ddefnyddwyr dros y gwasanaethau y maent yn eu derbyn. Yn arbennig, bydd y Bil yn darparu'r amgylchedd ar gyfer cyflwyno gwelliannau yn gyflymach er mwyn rhoi llais cryf a mwy o reolaeth dros eu bywydau i bobl Cymru, fel y gallant sicrhau'r lles gorau. Mae *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy* yn ei gwneud yn ofynnol i lywodraeth leol ddatblygu Fframwaith Contractau Cenedlaethol gyda'i phartneriaid, gan gynnwys y GIG.

Bydd y Papur Gwyn Rheoleiddio ac Arolygu sydd ar y gweill yn rhoi cyfle i adolygu ac ail-lunio’r gwasanaethau sy’n cael eu darparu, gan gynnwys gofal preswyl. Bydd hyn eto yn rhoi mwy o lais a rheolaeth i unigolion mewn gofal hirdymor, ac yn sicrhau bod eu teuluoedd a’u gofalwyr yn chwarae mwy o ran wrth drafod eu hanghenion gofal a chymorth.

**Goblygiadau Ariannol:** Gweler y goblygiadau ariannol o dan argymhelliad 1.

**Prif argymhelliad 7:** Ni ddylid gweld gofal preswyl yn opsiwn sy'n cynnig un canlyniad yn unig, sef dirywiad nad oes modd ei ddadwneud. Credwn fod galluogi preswylwyr i gael bywyd sy'n rhoi mwy o ysgogiad iddynt ac sy’n fwy pwrpasol gan gwmpasu eu hanghenion ysbrydol. Byddai hyn yn helpu i atal neu ohirio'r agweddau negyddol hynny a all ddeillio o fyw mewn sefydliad yn ogystal â gwella ansawdd eu bywyd. Byddai sicrhau mwy o ymwneud gan ofalwyr ym mywyd preswylwyr cartrefi gofal a chysylltiadau cryfach â chymunedau lleol yn help i gyflawni hyn.

| |
|---|
| **Ymateb:** Derbyn |
| Un o brif themâu'r strategaeth iechyd y cyhoedd, *Ein Dyfodol Iach*, yw iechyd a lles gydol oes. Un o'r camau o fewn y thema hon yw y bydd gan bobl hŷn yr wybodaeth, y sgiliau a'r cymorth i wneud dewisiadau gwybodus ynghylch byw yn annibynnol a chael bywydau llawn. Gweithredu'r camau yn *Ein Dyfodol Iach* yw un o'r ymrwymiadau yn y *Rhaglen Lywodraethu.*<br><br>Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud gan *Fy Mywyd Mewn Cartref Cymru* yn cefnogi'r argymhelliad hwn. Nod y rhaglen *Fy Mywyd mewn Cartref Cymru* yw cyflwyno dulliau ymarferol, hygyrch i gynorthwyo'r sector cartrefi gofal wrth gefnogi preswylwyr hŷn, staff ac ymwelwyr i sicrhau'r ansawdd bywyd gorau. Mae'r rhaglen yn darparu gweithgareddau ar gyfer preswylwyr cartrefi gofal a chyfleoedd i ymarferwyr rannu a hybu arferion gorau. Mae hefyd yn rhoi'r wybodaeth i staff sy'n gweithio yn y maes hwn ar gyfer dysgu a datblygu'n broffesiynol. Mae'r rhaglen wedi bod yn llwyddiannus a chaiff ei chefnogi gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Rydym yn canolbwyntio ar les pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth drwy'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae'r Bil yn egluro ein bod yn credu y dylai gwasanaethau fod yn cefnogi lles a bod hynny'n cynnwys agweddau megis lles emosiynol. |
| **Goblygiadau Ariannol:** Dyfarnwyd grant i Age Cymru gyflwyno *Fy Mywyd Mewn Cartref Cymru* drwy Gynllun Grant y Sector Gwirfoddol yn 2008. Roedd y cyllid gwreiddiol yn para am dair blynedd. Ym mis Rhagfyr 2010 cafodd Age Cymru estyniad o ddwy flynedd ar y grant tan 31 Mawrth 2013. Yn 2012-13 cafodd Age Cymru £103,744 i redeg *Fy Mywyd Mewn Cartref Cymru.* Yn ddiweddar rydym wedi cymeradwyo £50,000 o arian cyfatebol ar gyfer *Fy Mywyd Mewn Cartref Cymru* tan 31 Mawrth 2014. |

| |
|---|
| **Prif argymhelliad 8:** Ac ystyried cyfraniad sylweddol Llywodraeth Cymru at gostau hyfforddi staff ym maes gofal cymdeithasol, dylai fod yn ofynnol i gyfran fwy o'r arian gael ei neilltuo i wella lefelau sgiliau ac ymwybyddiaeth o gyflyrau arbenigol ymhlith staff gofal, yn enwedig o ddementia. Yn gefn i hyn, mae lle i gryfhau rôl cyrff y trydydd sector sydd ag arbenigedd arbennig, megis Cymdeithas Alzheimer, Parkinson's UK Cymru a'r rheini sy'n cynrychioli pobl sydd wedi colli defnydd ar un o'u synhwyrau a phobl ag anableddau dysgu. |
| **Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor |
| Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r syniad o hyfforddi staff ym maes gofal cymdeithasol mewn ystod o feysydd arbenigol. Caiff rhywfaint o'r hyfforddiant ei ariannu yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys defnyddio Grant Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol, a chaiff rhywfaint ei ddarparu drwy gyrff eraill fel Cyngor Gofal Cymru (sef y corff datblygu gweithlu ar gyfer gofal |

cymdeithasol). Rydym yn derbyn bod angen adolygu'r ystod o hyfforddiant er mwyn sicrhau ei fod yn ddigonol ac yn berthnasol i'r anghenion sy'n bodoli. Rydym hefyd yn derbyn bod cyfraniadau gan gyrff y trydydd sector sydd wedi datblygu arbenigedd mewn meysydd penodol yn werthfawr i'r hyfforddiant hwn.

Mae Cyngor Gofal Cymru yn cynnal cyfres o raglenni hyfforddi gwaith. Mae hefyd yn darparu ystod o adnoddau sy'n cefnogi’r gweithlu gofal cymdeithasol ym maes gofal i bobl hŷn sydd â chyflyrau iechyd penodol, gan gynnwys dementia. Er enghraifft, mewn ymateb i'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu*, mae'r Cyngor Gofal wedi cychwyn Rhaglen Datblygu Rheolwyr Gofal Cymdeithasol. Hefyd, ceir unedau gwybodaeth a chymhwysedd mewn amryw gyflyrau arbenigol o fewn Fframwaith Cymwysterau a Chredydau ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys awtistiaeth, diabetes a strôc.

Fodd bynnag, gellir cymryd camau pellach i ddatblygu'r gweithlu ym maes gofal cymdeithasol, yn enwedig o ran dementia. Mae camau posibl i'w hystyried yn y dyfodol yn cynnwys:

- hybu / codi ymwybyddiaeth o adnoddau presennol ac unedau Fframwaith Cymwysterau a Chredydau mewn gofal dementia yn y sector gofal preswyl;
- rhoi cymorth a chyllid i weithwyr i gwblhau unedau penodol ar ofal dementia fel rhan o'u Datblygiad Proffesiynol Parhaus a dysgu parhaus;
- ystyried cyflwyno hyfforddiant gorfodol ar ofal dementia;
- blaenoriaethu cyllid er mwyn datblygu a hyfforddi staff mewn gofal dementia, er enghraifft, grant Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol. Byddai hyn yn caniatáu i anghenion hyfforddi gael eu hasesu yn lleol / rhanbarthol a dod â'r sectorau statudol, gwirfoddol ac annibynnol ynghyd;
- darparu adnoddau ar gyfer Partneriaethau Gofal Cymdeithasol i ddatblygu cynlluniau rhanbarthol ar gyfer hyfforddiant sicrwydd ansawdd mewn gofal dementia, yn seiliedig ar anghenion lleol / rhanbarthol;
- sicrhau bod Cynllun Rhanddeiliaid Dementia Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar wella hyfforddiant ar draws meysydd iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei fonitro a'i adolygu.

Mae sefydliadau eraill megis yr awdurdodau lleol, cyrff y sector gwirfoddol, partneriaethau gofal cymdeithasol, Canolfan Datblygu Gwasanaethau Dementia a'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth hefyd wedi creu adnoddau a strategaethau ar gyfer datblygu'r gweithlu.

Yn ogystal â hynny, rhoddodd Llywodraeth Cymru £250k i’r Ganolfan Datblygu Gwasanaethau Dementia y llynedd i ddatblygu a hybu hyfforddiant ar draws y

GIG a maes gofal cymdeithasol ac yn benodol mewn cartrefi gofal, ac ar gyfer hyfforddiant i ofalwyr hefyd. Cafodd y Gymdeithas Alzheimer hefyd gyllid i helpu i ddatblygu pecynnau gwybodaeth lleol ar gyfer unigolion sydd newydd gael gwybod bod dementia arnynt. Mae sefydliadau o'r fath yn parhau i ddarparu arbenigedd gwerthfawr ym mhob lleoliad ledled Cymru.

O ran safonau monitro, mae adroddiadau arolygu am gartrefi gofal cofrestredig ar gael ar-lein, ac mae dulliau arolygu yn cael eu moderneiddio i ystyried pedair thema sy'n ymwneud ag ansawdd bywyd. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru hefyd yn cynnal gwiriadau urddas heb rybudd mewn ysbytai.

**Goblygiadau Ariannol:** Mae hyfforddiant ar gyfer staff ym maes gofal cymdeithasol yn derbyn cyllid parhaus gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â chyllid gan gyrff eraill sy'n ymwneud â datblygu'r gweithlu, gan gynnwys Cyngor Gofal Cymru. Mae'r ffordd y caiff y cyllid hwn ei ddefnyddio yn cael ei adolygu yn unol â'r argymhelliad hwn.

**Prif argymhelliad 9:** Er mwyn adlewyrchu'n well y newid sy'n digwydd ym mhatrymau darparu gwasanaethau:

**-** Dylid diwygio categorïau cofrestru cartrefi gofal er mwyn creu mwy o hyblygrwydd fel nad oes cymaint o angen i bobl hŷn symud pan fydd eu hanghenion yn newid. Dylai'r diwygio hwn gadw at y camau diogelu pwysig a ddarperir gan y system bresennol o ran asesu a diwallu anghenion unigolion wrth iddynt newid. Yn benodol, dylid rhoi'r gorau i ddefnyddio categori darpariaeth ar wahân ar gyfer pobl a dementia arnynt.

- Dylai'r trefniadau ar gyfer rheoleiddio ac arolygu modelau gofal newydd a'r rhai sy'n datblygu, gan gynnwys cynlluniau tai Gofal Ychwanegol, gael eu hail-archwilio a'u hegluro.

**Ymateb:** Derbyn

Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn rhan o Lywodraeth Cymru ac rydym yn cydnabod y dylai gofal ganolbwyntio ar y person a bod yn hyblyg, gan adlewyrchu anghenion unigol a newidiol pobl. Mae wedi cael ei gynnig mewn egwyddor y dylai'r defnydd o gategorïau cofrestru gael ei leihau yn raddol ac mae AGGCC wedi cyhoeddi hysbysiad o flaen llaw o'r bwriad hwn, gan wahodd sylwadau fel bod pobl yn deall yr effaith yn llawn, ac yn barod amdano. Rydym yn credu bod angen i wasanaethau gofal allu bod yn fwy cydnerth, yn arbennig wrth gefnogi anghenion pobl â dementia, ac rydym am i wasanaethau ddatblygu mwy o gymhwysedd a gallu i ddiwallu'r ystod eang o anghenion sydd gan bobl hŷn.

Nodwn fod pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yn fwyfwy dibynnol a bod ffin annelwig rhwng gofal personol a gofal nyrsio yn datblygu yn sgil hynny. Mae Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'r Papur Gwyn Rheoleiddio ac Arolygu yn rhoi cyfleoedd i adolygu'r gwahaniaeth rhwng gofal personol a gofal nyrsio.

Cydnabuwyd bod datblygu mathau arloesol, llai traddodiadol o ofal yn codi cwestiynau ynghylch beth ddylai gael ei reoleiddio a sut, yn arbennig ym maes gofal cartref a darparu gofal ychwanegol. Mae'r Papur Gwyn hefyd yn rhoi cyfle i ofyn lle y gall y broses reoleiddio ychwanegu sicrwydd a gwerth i'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal.

**Goblygiadau Ariannol:** O safbwynt rheoleiddio mae hwn yn niwtral o ran cost. Credwn y gallwn ateb yr heriau gan ddefnyddio adnoddau presennol. O fewn y sector gofal ehangach, dylai mwy o hyblygrwydd sicrhau mwy o arbedion effeithlonrwydd a gwell defnydd o adnoddau.

**Prif argymhelliad 10:** Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i leihau nifer yr achosion lle bydd gwasanaethau'n chwalu a lliniaru effaith hynny drwy:
- weithio gydag AGGCC er mwyn sicrhau bod trefniadau ar gyfer craffu ariannol ar ddarparwyr annibynnol yn cael eu cryfhau. Dylid gwneud hyn drwy fynnu bod darparwyr yn cyflwyno cyfrifon blynyddol i AGGCC ar gyfer lleoliadau gofal unigol.
- ailymweld ac ailasesu trefniadau 'person addas a phriodol' mewn achosion lle bydd cartrefi gofal yn newid dwylo er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys ystyried cynaliadwyedd ariannol a'u bod yn berthnasol i gorfforaethau yn ogystal ag i reolwyr/perchnogion unigol.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Mae'r problemau sy'n codi gyda'r darparwyr gofal corfforaethol mawr yn mynd y tu hwnt i broffidioldeb lleoliadau gofal unigol, ac yn wir gallent ymwneud â materion diddyledrwydd corfforaethol mewn meysydd eraill o weithgarwch busnes, sydd weithiau’n amherthnasol. Bydd y Papur Gwyn Rheoleiddio ac Arolygu yn rhoi cyfle i ystyried a ellir cael trefniadau cryfach ar gyfer cofrestru darparwyr corfforaethol mawr.

Yr hyn sydd bwysicaf i Llywodraeth Cymru yw diogelu lles y rheini sy'n derbyn gwasanaethau gofal. Roedd y gwersi a ddysgwyd yn dilyn cwymp Southern Cross, y cyn-ddarparwr gofal iechyd, yn pwysleisio'r angen i ddangos pa mor ymarferol ydyw i gwmnïau ddarparu'r gwasanaethau, yn ariannol ac yn weithredol.

Ar lefel ehangach, er bod gofal cymdeithasol yn fater datganoledig, mae natur y farchnad gofal cymdeithasol yn golygu bod darparwyr yn aml yn gweithredu ar draws ffiniau ar lefel y DU gyfan. Mae goruchwylio'r farchnad ofal yn faes polisi newydd sy'n datblygu, ar gyfer Llywodraeth Cymru a gweinyddiaethau eraill y DU. Mae Llywodraeth Cymru felly yn gweithio ledled y DU i ddatblygu dull newydd i fynd i'r afael â'r mater hwn yng nghyd-destun y materion unigryw sy'n wynebu'r sector gofal yng Nghymru. Mae'r Adran Iechyd wrthi'n cynnal ymgynghoriad ar ei chynigion ar gyfer goruchwylio'r farchnad ofal yn Lloegr yn y

dyfodol. Gellir gweld y cynigion yn:
http://caringforourfuture.dh.gov.uk/2012/12/03/provider-failure

Byddai cyflwyno cyfrifon blynyddol ar ffurf a ragnodwyd yn cryfhau ein harolygaeth o ddichonoldeb darparwyr. Rydym wedi cyflwyno tri arolygiad llinell sylfaen flynyddol sy'n rhoi cyfle i gynnal adolygiad trylwyr o'r broses o gofrestru gwasanaethau gofal. Byddai'n ofynnol cael adnoddau arolygu ychwanegol i wneud hyn yn flynyddol. Hebddynt, byddai gan arolygwyr lai o allu i ganolbwyntio ar ganlyniadau adeg arolygiad. Caiff y mater hwn ei ystyried ymhellach yng nghyd-destun y Papur Gwyn Rheoleiddio ac Arolygu.

**Goblygiadau Ariannol:** Byddai angen sicrhau arbenigedd busnes ychwanegol ac arbenigedd cyfrifo fforensig gan Lywodraeth Cymru. Nid oes unrhyw gostau yn gysylltiedig â'r cynigion goruchwylio.

**Prif argymhelliad 11: Dylai** Llywodraeth Cymru gryfhau'r canllawiau - *Escalating Concerns With, and Closures of, Care Homes Providing Services for Adults* - i awdurdodau lleol ynglŷn â chau cartrefi gofal mewn ffordd sy'n egluro'r trefniadau a'r cyfrifoldeb am hysbysu preswylwyr a'u teuluoedd ynglŷn â'r bwriad o gau. Dylid sefydlu pwynt penodol yn y broses lle bydd gan breswylwyr a theuluoedd yr hawl i gael gwybod am ddigwyddiad o'r fath.

**Ymateb:** Derbyn

Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn wedi sefydlu grŵp cyfeirio strategol i gynghori Llywodraeth Cymru ar sut y gellir adolygu *Escalating Concerns* a sicrhau bod y canllawiau hyn yn ymateb yn fwy i'r problemau y mae pobl hŷn yn eu hwynebu o ran newid mewn trefniadau byw; nid yn unig pan fydd cartrefi'n cael eu cau ar frys ond gan ystyried hefyd y materion sy'n codi yn sgil newidiadau mewn polisïau lleol ar ddarpariaeth gwasanaethau neu drefniadau cyllido. Cytunwyd ar gylch gorchwyl y grŵp hwn ac mae gwaith yn mynd rhagddo.

**Goblygiadau Ariannol:** Rhagwelir y bydd hwn yn niwtral o ran cost.

**Prif argymhelliad 12:** Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi gwneud llawer i hybu cynlluniau gofal Ychwanegol. Yn sgil yr arian cyhoeddus sydd eisoes wedi'i fuddsoddi yn y maes hwn, mae wedi dod yn amlwg bod gofal Ychwanegol yn fodel effeithiol ac ymarferol. Mae angen i Lywodraeth Cymru wneud rhagor yn awr i ddatblygu rôl gofal Ychwanegol yng Nghymru. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen defnyddio arian cyhoeddus mewn ffordd fwy hyblyg ar draws portffolio mwy nag un gweinidog. Bydd hyn yn golygu y bydd modd i ddarparwyr gofal Ychwanegol fanteisio i'r eithaf ar eu gallu hwy eu hunain i godi arian a datblygu rhaglen sylweddol ar gyfer y dyfodol ar y cyd â'r Llywodraeth.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

| |
|---|
| Rydym yn cydnabod y cyfraniad pwysig y mae tai gofal ychwanegol yn ei wneud i'r cyflenwad o lety ar gyfer pobl hŷn. Mae mwyafrif y tai gofal ychwanegol yng Nghymru hyd yma wedi cael eu darparu gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Ers 2002, mae 24 o gynlluniau gofal ychwanegol wedi cael eu cwblhau gan ddarparu dros 1,124 o gartrefi lle y gall pobl barhau i fod yn annibynnol. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwerthuso tai gofal ychwanegol yn 2013 a hefyd yn trafod ag awdurdodau lleol ofynion y dyfodol o ran darparu gofal ychwanegol. |
| **Goblygiadau Ariannol:** Mae sicrhau cyllid yn hanfodol i ddarpariaeth yn y dyfodol a bydd angen ymchwilio i fodelau cyllido newydd wrth i gyllidebau cyfalaf gael eu cyfyngu.<br>Yn gyffredinol mae angen rhwng £3 a £5 miliwn ar gynlluniau gofal ychwanegol a ariennir gan grantiau yn dibynnu ar faint a lleoliad. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar gyllidebau, felly mae angen ymchwilio i opsiynau cyllido eraill. |

| |
|---|
| **Prif argymhelliad 13:** Mae angen i Lywodraeth Cymru symud oddi wrth fod yn alluogwr yn unig ym maes gofal cymdeithasol a chyfrannu'n frwd at lunio a darparu model sy'n addas at y diben ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol. Rhaid i'r Llywodraeth symud yn gyflym oddi wrth ei dadansoddiad presennol a datblygu syniadau er mwyn cyrraedd sefyllfa lle y bydd yn rhoi polisïau ar waith ac yn gweithredu ar lawr gwlad. Er mwyn galluogi hyn, dylid rhoi llais cryfach a llais ar wahân i’r sector sydd heb fryd ar wneud elw a'r sector cydweithredol mewn trafodaethau â Llywodraeth Cymru. Credwn y bydd hyn yn help i sicrhau bod y sector yn gallu gwneud cyfraniad llawn at ddarparu gwasanaethau gofal i bobl hŷn yng Nghymru. |
| **Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor |
| Mae *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu* yn amlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau y dylai ystod ehangach o wasanaethau gofal cymdeithasol fod ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr; a'r disgwyliad y bydd y dinasyddion eu hunain yn trefnu ac yn cyflenwi ystod ehangach. Nodwyd yn y Papur Gwyn bod gofal cymdeithasol yn barod ar gyfer datblygu mentrau cymdeithasol a modelau cysylltiedig o ddarparu gwasanaethau. Mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarfod ag arbenigwyr blaenllaw o Ganada i drafod modelau cydweithredol o ofal cymdeithasol a daethant i'r casgliad fod gan fodelau o'r fath y gallu i greu gwasanaethau o ansawdd yn y gymuned.<br><br>Mae darpariaethau wedi cael eu gwneud ym Mil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) sy'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i hybu datblygiad mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol yn eu hardal. Yn fuan byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i gyflwyno gweithdai i hybu cyd-ddealltwriaeth ac i godi ymwybyddiaeth o fentrau cymdeithasol fel model cyflenwi ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol. |

| |
|---|
| **Goblygiadau Ariannol:** Gellir sicrhau cyllid ar gyfer y gwaith datblygu cychwynnol o gyllidebau rhaglenni presennol. |

Mae'r casgliadau canlynol yn cefnogi'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor ac yn amlinellu nifer o faterion y mae'n credu y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried ymhellach. Dyma ymateb Llywodraeth Cymru:

| |
|---|
| **Casgliad 1:** Mae trywydd polisi Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar alluogi pobl hŷn i aros yn annibynnol gyhyd ag y bo modd a chael gofal a chymorth yn eu cartref. Rydym yn llwyr gefnogi’r trywydd hwn ond credwn y gellid ac y dylid gwneud rhagor i leihau ein dibyniaeth ar ofal preswyl yng Nghymru. Dylai defnyddio gofal preswyl fod yn llai pwysig yn y dyfodol wrth i fodelau amgen yn y gymuned gael eu datblygu fwyfwy, a'r rheini mewn lleoliadau preswyl ac yn y gymuned. |
| **Ymateb:** Mewn ymateb i *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu* mae Llywodraethau Leol Cymru wedi datblygu cynllun gweithredu sy'n rhoi pwyslais ar wasanaethau ataliol sy'n cynorthwyo adferiad person ac yn lleihau'r angen am ofal parhaus. Bydd y ffaith bod trefniadau gwasanaeth presennol yn newid dros gyfnod i fod yn fodelau integredig newydd sy'n canolbwyntio ar wella canlyniadau, yn cynnwys ail-alluogi, yn hybu annibyniaeth ac yn rhoi rheolaeth i unigolion sydd angen gofal a chymorth o'r fath. |

| |
|---|
| **Casgliad 2:** Mae rôl gofalwyr a theuluoedd yn hollbwysig o ran y gofal a gaiff pobl hŷn yng Nghymru. Byddant yn aml yn gwneud y gwaith hwn ar eu traul ariannol ac emosiynol hwy eu hunain; eto i gyd, byddant yn ymroi’n ddi-baid, a hynny gan amlaf am flynyddoedd lawer. Er mai barn yr unigolyn hŷn fydd bwysicaf bob tro, rhaid inni roi gwell cymorth i ofalwyr ac i deuluoedd pobl hŷn er mwyn sicrhau bod eu cyfraniad gwerthfawr wrth wraidd unrhyw benderfyniadau ynglŷn â gofal tymor byr neu dymor hir. |
| **Ymateb:** Fel cymdeithas mae ein dyled yn fawr i'r nifer fawr o bobl sy'n darparu gofal a chymorth yn ddi-dâl i berthnasau, ffrindiau neu gymdogion sy'n anabl, yn fregus neu'n agored i niwed. Mae'n hollbwysig bod y gofalwyr di-dâl hyn yn cael cymorth eu hunain ac nad ydynt dan anfantais o ganlyniad i'r rôl ofalu. Er bod llawer wedi cael ei gyflawni o ran polisi, deddfwriaeth a datblygu gwasanaethau ar gyfer gofalwyr yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod llawer yn fwy y gellid ei wneud ac mae'n cymryd camau yn y meysydd canlynol:<br><br><u>Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010</u><br>Gosododd Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010 ofyniad newydd |

ar y GIG ac awdurdodau lleol yng Nghymru i weithio mewn partneriaeth i baratoi, cyhoeddi a gweithredu Strategaethau Ymgynghori a Gwybodaeth i Ofalwyr yn lleol. Yn arbennig, mae'r Mesur yn cydnabod rôl hanfodol y GIG wrth adnabod gofalwyr, cynnig gwybodaeth iddynt a'u cyfeirio at ffynonellau o gyngor a chymorth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod £5.8 miliwn ar gael dros y tair blynedd rhwng 2012-13 a 2014-15 i gefnogi'r broses o ddatblygu a gweithredu'r Strategaethau.

<u>Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)</u>
Bydd y Bil yn gwella'n sylweddol y fframwaith cymorth i ofalwyr. Am y tro cyntaf, bydd gan ofalwyr hawliau sy’n gyfartal i â hawliau’r bobl maent yn gofalu amdanynt.

<u>Strategaeth Gofalwyr Cymru</u>
Yn unol â'n hymrwymiad yn y *Rhaglen Lywodraethu*, rydym wedi ymgynghori yn ddiweddar ar adnewyddu Strategaeth Gofalwyr Llywodraeth Cymru. Cafodd y Strategaeth ei chyhoeddi yn wreiddiol yn 2000 a chyhoeddwyd diweddariad o'r Cynllun Gweithredu yn 2007. Dyma adeg ddelfrydol i adnewyddu'r Strategaeth yn sgil ein hymrwymiad i drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Bydd y Strategaeth yn canolbwyntio’n bennaf ar alluogi a chefnogi partneriaid rhanbarthol a lleol i ddarparu gwasanaethau ac i gefnogi gofalwyr. Bydd hyn yn cynnwys hybu arferion gorau a dod o hyd i ffyrdd arloesol a chynaliadwy o gefnogi gofalwyr yn fwy effeithiol. Mae'n nodi'r pum maes blaenoriaeth lle rydym am wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau gofalwyr, ac mae'n amlinellu'r camau i'w cymryd i gyflawni hyn. Caiff y Strategaeth newydd ei chyhoeddi ym mis Ebrill 2013.

**Casgliad 3:** Credwn y byddai cael diagnosis o ddementia'n gynharach yn arfogi pobl hŷn, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn well i gynllunio ar gyfer y cyflwr a'i reoli ac y byddai'n lleihau neu'n gohirio'r angen i rywun gael gofal tymor hir, gan gynnwys gofal preswyl. Felly, gall buddsoddi mewn gwell gwasanaethau iechyd yn y gymuned arbed arian i asiantaethau eraill. Mae hyn yn gyson â pholisi Llywodraeth Cymru, sef ailgyfeirio gwasanaethau iechyd oddi wrth leoliadau aciwt a thuag at wasanaethau yn y gymuned.

**Ymateb:** Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd (NLIAH) wneud rhywfaint o waith ar roi diagnosis o ddementia. Yn ogystal â hynny, mae NLIAH yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu modiwl hyfforddi ar gyfer practisau meddygon teulu, gan gynnwys y tîm gofal sylfaenol cyfan. Rydym wedi datblygu targedu deallus i wella'r broses o nodi'n gynnar a gosod targedau i wella.

Rydym hefyd yn disgwyl y bydd Rhan Un o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) yn

gwella hyn drwy gefnogi’r broses o roi diagnosis i’r rheini sy'n dioddef o ddementia a’u hatgyfeirio i glinigau cof.

Mae Llinell Gymorth Dementia Cymru a gwefan ddwyieithog bellach ar gael 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn, ac mae ein Cynllun Presgripsiwn Llyfrau wedi cael ei ymestyn i gynnwys pedwar llyfr sy'n canolbwyntio'n benodol ar ddementia.

Mae mwy na £250k wedi cael ei roi i Ganolfan Ddatblygu Gwasanaethau Dementia i adolygu, datblygu a darparu hyfforddiant i staff mewn cartrefi gofal, a'r rheini sy'n gweithio yn yr ysbyty, yn y gymuned ac mewn lleoliadau gwasanaethau iechyd meddwl, a staff gofal sylfaenol gan gynnwys meddygon teulu.

**Casgliad 4:** Rydym yn cefnogi safbwynt Llywodraeth Cymru ynglŷn ag atal ac ymyrryd yn gynnar. Credwn fod hwn yn faes lle y byddai datblygu rhagor ar bolisïau a gwasanaethau’n arwain at fuddion tymor hir i bobl hŷn a hefyd yn golygu y byddai arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n fwy effeithiol. Rydym yn sylweddoli na all awdurdodau lleol ddarparu llawer o wasanaethau ataliol ar gyfer pobl hŷn yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Credwn, fodd bynnag, y gallai llywodraeth leol:

- ddefnyddio’i dylanwad i annog pobl hŷn i ystyried a cheisio gwasanaethau ataliol; a
- gweithio gyda phartneriaid yn y trydydd sector a’r sector preifat i helpu pobl i ganfod darparwyr dibynadwy y gellir ymddiried ynddynt.

Credwn y bydd hynny’n gwneud pobl yn fwy ymwybodol o wasanaethau o’r fath ac yn rhoi mwy o hyder iddynt wrth eu prynu.

**Ymateb:** Bydd Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd i gyflwyno gwasanaethau ataliol, ymyrraeth gynnar a lles. Mae'r trydydd sector eisoes yn chwarae rôl bwysig wrth gyflwyno rhaglenni atal a hwyluso lefel isel, megis cyfeillio a gwasanaethau mân dasgau. Ond mae cyfle mawr i gynyddu'r ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes. Rydym yn ystyried y rôl y gall mentrau cymdeithasol eu chwarae wrth ddatblygu'r ddarpariaeth hon. Mae gennym ddiddordeb penodol mewn modelau o fentrau cymdeithasol, gan fod yr athroniaeth o berchnogaeth a rheolaeth y defnyddiwr/gweithiwr yn cefnogi’r broses o ddarparu gwasanaethau ataliol/ lefel isel mewn modd hyblyg a chadarnhaol. Rydym yn gwybod bod cael rheolaeth dros ba wasanaethau y mae unigolyn yn eu cael a sut y cânt eu darparu yn cael effaith gadarnhaol ar yr unigolyn. Hefyd, wrth ystyried y modelau hyn lle maent eisoes yn bodoli, mae tystiolaeth yn awgrymu eu bod yn ffyrdd cost-effeithiol o ddarparu gwasanaethau.

**Casgliad 5:** Er bod y trywydd y mae awdurdodau'n ei ddilyn o ran cynllunio'r ddarpariaeth gofal preswyl ac ymwneud yn fwy brwd â'r farchnad yn ein calonogi, credwn y gellid gwneud rhagor. Bydd datblygu datganiadau ynglŷn â'u safle yn y farchnad yn darparu gwybodaeth bwysig i ddarparwyr am yr hyn sy'n ofynnol ac yn caniatáu iddynt gynllunio. Dylid cwblhau'r datganiadau hyn a'u cyhoeddi cyn gynted ag y bo modd.

**Ymateb:** Awdurdodau lleol fydd i benderfynu pa feysydd maent am eu defnyddio i baratoi'r ffordd ar gyfer defnyddio datganiadau ynglŷn â'u safle yn y farchnad. Comisiynodd yr Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol (SSIA) y Sefydliad Gofal Cyhoeddus i redeg saith gweithdy rhanbarthol ar gyfer awdurdodau lleol ar hwyluso'r farchnad a chyfraniad datganiadau ynglŷn â'u safle yn y farchnad. Cafodd y rhain eu cwblhau yn yr hydref y llynedd ac mae canllawiau gan SSIA i fod i ddilyn ym mis Ebrill 2013. Mae cynllun gweithredu'r Llywodraeth Leol mewn ymateb i *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu* yn cynnwys ymrwymiad i sefydlu bwrdd comisiynu cenedlaethol gyda chynrychiolwyr o fyrddau iechyd, ynghyd â fforwm darparwyr cenedlaethol. Gallai hyn fod yn gyfle i gael trafodaethau pellach ar adroddiad y Pwyllgor a'r casgliad hwn ar y defnydd posibl o ddatganiadau ynglŷn â'u safle yn y farchnad.

**Casgliad 6:** Mae sut y byddwn yn talu am ofal yn ddylanwad hollbwysig ar ei ansawdd. Mae cysylltiad clos rhwng ariannu gofal cymdeithasol yng Nghymru a materion polisi ehangach megis budd-daliadau lles a threthu, a Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n dal yn gyfrifol am y rheini. Felly, rydym yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i barhau i weithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar y mater brys hwn gyda golwg ar ganfod ateb priodol ar gyfer ariannu gofal cymdeithasol yng Nghymru cyn gynted ag sy'n bosibl. Credwn y dylai Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogion Cymru ar gyfer Diwygio Lles, sy'n asesu effaith diwygiadau lles presennol Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar Gymru ac yn ymateb iddynt, fod yn ymwybodol o fater talu am ofal ac o ddylanwad posibl unrhyw newidiadau yng Nghymru.

**Ymateb:** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i feithrin system o dalu am ofal sy'n gynaliadwy, yn fforddiadwy ac yn deg i bawb. Mae ymgynghoriadau helaeth wedi'u cynnal gyda rhanddeiliaid yng Nghymru ar ba fath o system fyddai'n cael cefnogaeth gyhoeddus a gwleidyddol ehangach yma yn y dyfodol.

Roedd adroddiad Comisiwn Dilnot yn 2011 ar gyllido gofal a chymorth yn Lloegr yn y dyfodol yn cynnwys nifer o gynigion ar gyfer datblygu'r agenda hon. Mae Llywodraeth y DU wedi cytuno mewn egwyddor i'r canfyddiadau allweddol yn Dilnot, ond caiff manylion ynghylch sut a phryd y byddai'n gweithredu mesurau o'r fath eu cyhoeddi yn dilyn yr adolygiad o wariant yn yr hydref eleni. Mae'r diffyg eglurder hwn yn cyfyngu ar ein gallu i ddiwygio yng Nghymru gan ystyried y

cysylltiadau â threthu a budd-daliadau lles y DU. Wedi dweud hynny, mae'r costau sylweddol sydd ynghlwm wrth unrhyw waith diwygio yn golygu bod diwygio yng Nghymru yn dibynnu ar drosglwyddo i Lywodraeth Cymru y cyllid canlyniadol sy’n cael ei ddarparu yn Lloegr. Rydym yn amcangyfrif y byddai gweithredu'r argymhellion allweddol yn adroddiad Dilnot yng Nghymru, pe byddem yn dymuno gwneud hynny, yn costio tua £100 miliwn y flwyddyn sy'n golygu bod ariannu hwn heb gyllid canlyniadol yn anghynaliadwy. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i annog Gweinidogion y DU i ddatrys y mater hwn cyn gynted â phosibl ac mae wedi gofyn am gyfarfod diweddaru gyda Gweinidog Gwasanaethau Gofal y DU.

Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogion Llywodraeth Cymru ar gyfer Diwygio Lles yn asesu effaith diwygiadau lles presennol Llywodraeth y DU yng Nghymru, ac felly nid oes ganddo rôl wrth ystyried dyfodol talu am ofal yng Nghymru.

**Casgliad 7:** Credwn fod angen cymryd camau i sicrhau bod pobl hŷn mewn gofal preswyl yn gallu manteisio ar wasanaethau iechyd o’r un safon ag y gall y gymuned ehangach.

**Ymateb:** Caiff ein polisïau gofal iechyd eu datblygu i sicrhau bod pawb yng Nghymru, lle bynnag y maent yn byw a beth bynnag fo'u hamgylchiadau, yn cael gwasanaethau, gofal a chymorth o ansawdd uchel.

Nod y Cynllun Gofal Integredig Lleol, sydd wrthi’n cael ei ddatblygu, yw sicrhau bod mwy o ofal a chymorth yn cael eu darparu mewn lleoliadau sylfaenol a chymunedol, i ddiwallu anghenion pobl a chleifion yn well ledled Cymru. Mae'n canolbwyntio ar sicrhau bod gwasanaethau, gofal a chymorth o ansawdd uchel ar gael i bawb, yn y cartref, neu'n agos i'r cartref, sy'n cynnwys y rheini sydd mewn gofal preswyl. Mae hefyd yn cydnabod yr angen i gefnogi pawb, ond yn arbennig pobl fregus a'r henoed. Mae'r Cynllun yn ceisio sicrhau bod y GIG a'i bartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gwasanaethau lleol yn gallu ymateb i anghenion pawb yn y gymuned leol.

Bydd y Cynllun hefyd yn egluro'r canlyniadau a'r lefel o berfformiad sy'n ddisgwyliedig gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, drwy gyhoeddi Fframweithiau Canlyniadau Cenedlaethol. Bydd y cynnydd yn cael ei fonitro yn erbyn y mesurau hyn.

**Casgliad 8:** Mae angen sicrhau bod recriwtio a hyfforddi staff yn helpu i sicrhau bod cyfathrebu da'n cael ei hwyluso rhwng staff gofal a phreswylwyr cartrefi gofal, a hynny o ran iaith ac o ran sensitifrwydd i anghenion cyfathrebu penodol pobl sydd â chyflyrau dirywiol megis dementia, Clefyd Parkinson, colli defnydd ar un o'r synhwyrau neu awtistiaeth.

| |
|---|
| **Ymateb:** Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod cyfathrebu effeithiol rhwng staff a'r rheini maent yn gofalu amdanynt yn hanfodol i ansawdd eu perthynas a'r gofal a ddarperir. Mae'r broses recriwtio a hyfforddi yn ystyried yr angen hwn mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys y rheini a nodir isod, sy'n cael eu harwain gan Gyngor Gofal Cymru:<br><br>• Prosiect *Employer Investment Fund UK, 'Recruiting a World Class Workforce'*. Mae hyn yn cynnwys datblygu rôl y Llysgennad Gofal sy'n annog ymgeiswyr o safon uchel i ymuno â'r gweithlu gofal cymdeithasol. Bydd y prosiect hefyd yn cynnwys dulliau ar gyfer asesu sgiliau, gan gynnwys sgiliau cyfathrebu, wrth recriwtio;<br>• Y cynllun presennol ar gyfer Recriwtio Llysgennad Gofal Cymru, dan arweiniad y Partneriaethau Gofal Cymdeithasol:<br>• Mae'r Fframwaith Ymsefydlu Gofal Cymdeithasol yn cynnwys sgiliau cyfathrebu;<br>• Datblygu cymwysterau'r Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (QCF) - mae Sgiliau Cyfathrebu yn elfen orfodol o gymwysterau QCF ar gyfer staff gofal cymdeithasol. Mae meddu ar wybodaeth am golli defnydd o synhwyrau yn unedau gorfodol ar lefelau 2 a 3;<br>• datblygu cynllun gweithredu'r gweithlu yn seiliedig ar yr argymhellion yn nogfen *Mwy Na Geiriau* Llywodraeth Cymru, sef Strategaeth y Gymraeg ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol;<br>• Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol diwygiedig mewn Arwain a Rheoli Gwasanaethau Gofal ac mewn Gwaith Cymdeithasol - mae'r ddau yn pwysleisio sgiliau cyfathrebu;<br>• datblygu cyfarwyddyd ymarfer ar gyfer rheolwyr sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Gofal, sy'n cynnwys adran benodol ar gyfathrebu'n dda ac is-adrannau ar gyfathrebu ag unigolion; cefnogi staff; gweithio ag eraill a chofnodion ac adroddiadau;<br>• datblygu dulliau a chyfarwyddyd ymarfer ar gyfer staff gofal cymdeithasol, a fydd yn rhoi pwyslais ar sgiliau cyfathrebu, ee cyfarwyddyd ymarfer dementia, gwybodaeth a sgiliau. |

| |
|---|
| **Casgliad 9:** Ac ystyried bod gan bobl sydd mewn gofal preswyl anghenion gofal dwysach, er enghraifft yr anghenion sydd gan bobl a dementia arnynt neu'r rhai sydd wedi colli defnydd ar un o'u synhwyrau, a bod angen continwwm gofal er mwyn osgoi unrhyw symud sy'n tarfu arnynt, mae’r dulliau cynllunio arloesol sy’n cael eu datblygu yn ein calonogi a chredwn y dylai’r sector hybu rhannu arferion da. |
| **Ymateb:** Mae'n hanfodol i rannu arfer da ac i ddysgu gwersi ar draws y sector. Rydym wedi egluro yn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu* ein bod yn defnyddio dull newydd o sicrhau gwelliant a byddwn yn datblygu'r dull hwnnw fel rhan o'n gwaith i ddatblygu fframwaith |

| |
|---|
| gwelliant newydd. Ar hyn o bryd rydym yn darparu cyllid grant i gefnogi asiantaethau gwella sy'n rhannu arfer da - Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth. Mae gan Gyngor Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru rôl allweddol i'w chwarae wrth nodi a rhannu arfer da. |

| |
|---|
| **Casgliad 10:** Mae angen gwella'r ffordd y caiff pobl hŷn mewn gofal preswyl eu diogelu a'u hamddiffyn drwy wella'r arolygiaeth ar ansawdd gofal, lefelau staffio a gwella'r hyfforddiant i staff gofal. Rydym yn croesawu cynllun Llywodraeth Cymru i ddarparu sail ddeddfwriaethol ar gyfer hyn yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol sydd ar y gweill. |
| **Ymateb:** Er mwyn dangos pa mor bwysig yw diogelu oedolion i ni yng Nghymru, bydd Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cyflwyno fframwaith cyfreithiol cydlynol er mwyn diogelu oedolion. Bydd yn ceisio sicrhau bod yr un ymateb aml-asiantaethol cyson, cydlynol a chadarn i achosion sy'n ymwneud â diogelu oedolion, gan gynnwys cam-drin yr henoed, sydd eisoes yn bodoli ar gyfer achosion yn ymwneud â diogelu plant. At hynny, bydd y Papur Gwyn ar Reoleiddio ac Arolygu yn rhoi cyfle i sicrhau bod y gofal a'r cymorth o ansawdd da a'u bod yn cael eu darparu gan staff sydd wedi cael eu hyfforddi a'u rheoli'n briodol. |

| |
|---|
| **Casgliad 11:** Drwy ddarparu gwell hyfforddiant, mae angen rhoi gwell ymwybyddiaeth i staff gofal o'u dyletswyddau statudol o dan *Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005* a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Rydym yn croesawu'r cynigion yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol sydd ar y gweill i roi diogelu oedolion ar droedle statudol. Serch hynny, rydym yn awyddus i sicrhau bod y trefniadau newydd a roddir ar waith yn y pen draw drwy'r Bil/ y Ddeddf yn destun monitro ac asesu manwl i sicrhau eu bod yn gwbl effeithiol o ran gwella'r ffordd y caiff oedolion eu diogelu. |
| **Ymateb:** Bydd Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ceisio gwella arweinyddiaeth a chydweithredu drwy weithio'n aml-asiantaethol a bydd yn cyflwyno dull mwy cydlynol er mwyn diogelu oedolion sy'n wynebu risg. Er mwyn darparu arweinyddiaeth strategol bydd y Bil yn sefydlu Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol. Rôl y Bwrdd fydd cynghori Gweinidogion Cymru ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw'r trefniadau diogelu ac ar gamau i gryfhau polisïau ac i wella arferion. Caiff Byrddau Diogelu Oedolion eu sefydlu hefyd. Bydd y rhain yn canolbwyntio'n benodol ar risg, gan gynnwys y rheini a allai fod ag anghenion gofal a chymorth oherwydd problemau iechyd meddwl, er mwyn darparu ar gyfer cydweithredu a gwaith aml-asiantaethol effeithiol a sicrhau bod trefniadau yn eu hardal yn effeithiol.<br><br>Mae Arolygiaeth Iechyd Cymru yn monitro'r gwaith o weithredu'r *Trefniadau Diogelu rhag colli Rhyddid (DoLs)* gan y GIG ac ysbytai annibynnol cofrestredig |

pan fyddant yn gofalu am gleifion o'r fath a'r rôl y mae'r byrddau iechyd yn ei chwarae wrth drefnu asesiadau a chymeradwyo ceisiadau. Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn chwarae rôl debyg gyda lleoliadau gofal cofrestredig ac adrannau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol.

Cafodd cyllid grant ar gyfer dyletswyddau *Deddf Galluedd Meddyliol 2005* a DoLs eu cynnwys yn ffurfiol ym mhrif ddyraniad yn ôl disgresiwn y byrddau iechyd a'r awdurdodau lleol o fis Ebrill 2012, ynghyd â chyfrifoldeb ar gyfer monitro'n fewnol a hyfforddi staff. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i rai grwpiau o bobl roi sylw i Godau Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddylion a DoLs wrth weithredu neu wneud penderfyniadau ar ran pobl sydd â diffyg galluedd. Mae hyn yn cynnwys:

- staff amrywiol ym maes gofal iechyd (meddygon, deintyddion, nyrsys, therapyddion, radiolegwyr, parafeddygon ac ati);
- staff gofal cymdeithasol (gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr gofal ac ati).

Byddem yn disgwyl i sefydliadau cyfrifol sicrhau bod pob aelod o staff fel hyn yn cael yr hyfforddiant priodol.

**Casgliad 12:** Mae gwella statws gweithwyr gofal a hybu eu proffesiynoldeb yn ystyriaethau pwysig er mwyn gwella gwasanaethau i bobl hŷn mewn gofal preswyl. Dylai'r rhain fod yn flaenoriaethau i Lywodraeth Cymru a dylent gynnwys gwaith i ddatblygu rhagor ar lwybrau gyrfa i staff gofal cymdeithasol. At y diben hwn, mae'r Pwyllgor yn croesawu ailsefydlu Academi'r Ymarferwyr Gofal.

**Ymateb:** Mae gwella statws gweithwyr gofal cymdeithasol a hybu eu proffesiynoldeb yn agweddau pwysig ar bolisi Llywodraeth Cymru, fel y mae *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu* yn egluro. Mae llwybrau gyrfa a dysgu ac addysg broffesiynol barhaus ar gyfer gweithwyr ym maes gofal cymdeithasol yn cael eu datblygu, gan ddechrau gyda chofrestru rheolwyr gwasanaethau gofal gyda Chyngor Gofal Cymru.

**Casgliad 13:** Yn sgil y farn gref a fynegwyd wrthym ynglŷn â chofrestru wrth inni gasglu tystiolaeth, credwn y dylai Llywodraeth Cymru barhau i ystyried o ddifrif gofrestru'r holl staff gofal.

**Ymateb:** Bydd polisi presennol Llywodraeth Cymru yn fwy clir ynghylch ein disgwyliadau bod sefydliadau yn gyfrifol am safon y staff maent yn eu cyflogi. Yn sgil hyn, nid ydym yn dilyn cynlluniau i gofrestru grwpiau o weithwyr y tu hwnt i weithwyr cymdeithasol a rheolwyr gwasanaethau gofal ond byddwn yn adolygu trefniadau presennol ar gyfer rheoleiddio'r gweithlu i sicrhau bod y broses o gofrestru yn canolbwyntio ar rôl rheolwyr wrth arwain a gwella. Bydd y Papur Gwyn Rheoleiddio ac Arolygu yn rhoi cyfle pellach i ni ystyried ein polisi ar y mater hwn.

**Casgliad 14:** Mae gofyn i gartrefi gofal, yn ôl y rheoliadau, ddarparu gwybodaeth wedi'i diweddaru am niferoedd y staff, eu cymwysterau a'u profiad perthnasol. Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael yn haws i ddarpar breswylwyr a'u teuluoedd. Dylai cartrefi gofal preswyl a'u cyrff perthnasol wneud rhagor o ymdrech hefyd i annog darpar breswylwyr a'u teuluoedd i geisio'r wybodaeth hon wrth iddynt benderfynu ynglŷn â dyfodol gofal rhywun hŷn.

**Ymateb:** Mae'r rheoliadau sy'n deillio o Deddf Safonau Gofal 2000 eisoes yn amlinellu gofynion clir iawn mewn perthynas â Datganiad o Ddiben cartref gofal a'r wybodaeth y dylid ei chynnwys. Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn bwriadu cynhyrchu canllawiau ychwanegol ar ysgrifennu Datganiad o Ddiben.

Mae AGGCC wedi cyflwyno "Ansawdd Staffio" fel thema arolygu, a chaiff hwn ei gynnwys mewn adroddiadau arolygu. Caiff y canlyniadau ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau mewn perthynas â darpariaeth staff eu hegluro mewn adroddiadau.

**Casgliad 15:** Mae angen codi lefel gwybodaeth a sgiliau staff gofal i ddiwallu'r gofynion cynyddol sydd arnynt. Ac ystyried rôl ganolog rheolwyr cofrestredig, credwn y dylai strategaethau hyfforddi flaenoriaethu hyfforddiant ar eu cyfer. Mae angen i Lywodraeth Cymru a Chyngor Gofal Cymru fod yn hyderus eu bod yn ystyried eu hagwedd at hyfforddi'n rheolaidd ac yn ei diwygio er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i staff ac i breswylwyr. Hoffem bwysleisio pa mor bwysig yw sicrhau bod y gweithgarwch hyfforddi gan staff yn cael ei gofnodi mewn ffordd gynhwysfawr er mwyn annog cynnydd yn y maes hwn.

**Ymateb:** Mae polisi Llywodraeth Cymru yn nodi pa mor werthfawr a phwysig yw rheolwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol sydd wedi'u hyfforddi'n dda. O ganlyniad, rydym yn defnyddio dull strategol i sicrhau bod hyfforddiant priodol yn ofynnol a'i fod ar gael. Mae llawer o'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu gan Gyngor Gofal Cymru drwy Fwrdd Rhaglen Datblygu Rheolwyr Gofal Cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys:

- Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol diwygiedig ar gyfer arwain a rheoli gwasanaethau cymdeithasol;
- datblygu'r rhaglen 'Arwain Ymarferol' ar gyfer rheolwyr gofal cymdeithasol;
- datblygu Fframwaith Dysgu ac Addysg Broffesiynol Barhaus ar gyfer rheolwyr gofal cymdeithasol;
- datblygu cyfarwyddyd ymarfer ar gyfer rheolwyr gofal cymdeithasol.

Mewn perthynas â chofnodi hyfforddiant, mae'n ofynnol i reolwyr cofrestredig ddangos eu bod wedi bodloni'r gofynion dysgu a hyfforddi ar ôl cofrestru sy'n ofynnol ar gyfer ailgofrestru bob tair blynedd.

| |
|---|
| **Casgliad 16:** Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynrychiolaeth undebau llafur i staff sy’n gweithio mewn gofal preswyl a’r gwaith gwerthfawr y maent yn ei wneud yn hybu buddiannau eu haelodau ac yn tynnu sylw at eu pryderon am ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn y sector. Nodwn hefyd y gallai fod yn fuddiol i ddarparwyr cartrefi gofal gydnabod rôl undebau llafur yn ffurfiol. |
| **Ymateb:** Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod lles da ymhlith y gweithlu yn arwain at ganlyniadau da ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a bod gan yr undebau llafur rôl bwysig i'w chwarae yn hyn o beth. Cyflogwyr sydd i benderfynu pwy maent yn eu cydnabod fel cynrychiolwyr eu staff ac mae'r ffaith bod nifer o ddarparwyr gofal cymdeithasol yn fach yn golygu bod hyn yn fwy o her. |

| |
|---|
| **Casgliad 17:** Rydym yn croesawu'r gwelliannau i'r broses arolygu y soniodd AGGCC amdanynt, sef canolbwyntio ar ansawdd y gofal a chofnodi barn a phrofiadau pobl hŷn, eu teuluoedd a’u gofalwyr a staff gofal. Rydym yn arbennig o falch o glywed y caiff aseswyr lleyg eu recriwtio i gynnal arolygiadau a phwyswn ar Lywodraeth Cymru ac AGGCC i sicrhau eu bod yn cael eu hyfforddi a'u harfogi'n ddigonol i gyflawni eu gwaith. Credwn y bydd angen monitro a gwerthuso’n barhaus i sicrhau bod y gwelliannau hyn yn sicrhau'r newidiadau angenrheidiol. Rydym yn awyddus i'w gweld yn bwrw ymlaen â'r diwygiadau heb fod unrhyw oedi yn sgil y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Bil ar wahân ar reoleiddio’r gwasanaethau gofal cymdeithasol a’u staff. Rydym yn croesawu’r sicrwydd a gafwyd gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch hyn. |
| **Ymateb:** Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn gwneud cynnydd da o ran newid arferion arolygu a darparu adroddiadau sy'n fwyfwy clir ac sy'n adlewyrchu canlyniadau a phrofiadau pobl sy'n cael gofal. Nid yw'r penderfyniad i gyhoeddi Papur Gwyn ar Reoleiddio ac Arolygu ar wahân, yn hytrach na chynnwys darpariaethau ar hwn o fewn Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), wedi amharu dim ar gynnydd AGGCC yn hyn o beth. Yn wir, mae'n rhoi cyfle defnyddiol i adlewyrchu a datblygu'r newidiadau y mae AGGCC yn eu gwneud.<br><br>Mae AGGCC wedi pwysleisio pa mor bwysig yw bod arolygwyr yn siarad â'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau ac yn defnyddio dulliau arsylwi i ddeall profiadau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau. O ganlyniad mae tystiolaeth glir bod newidiadau cadarnhaol yn digwydd mewn arferion arolygu a bod mwy o ysgogiad i godi safonau.<br><br>Mae AGGCC wedi cael adborth cadarnhaol gan bobl sy'n defnyddio ac yn dewis gwasanaethau, comisiynwyr a darparwyr am ei ddulliau ac adroddiadau newydd. Fodd bynnag, nid yw'r rheini sy'n darparu gwasanaethau gofal gwael ac |

annigonol mor frwdfrydig gan fod eu hadroddiadau yn tynnu sylw at fethiannau sy'n gwneud y canlyniadau gwael ar gyfer pobl mewn lleoliadau gofal gwael yn glir iawn.

Mae AGGCC bellach yn treialu'r broses o ddefnyddio ymwelwyr annibynnol, gan gynnwys pobl ag anableddau dysgu a phobl hŷn, wrth arolygu'r gwasanaethau hynny. Mae eu hasesiadau yn darparu dull gwerthuso ychwanegol o ansawdd profiadau bywyd gan bobl sy'n byw mewn lleoliadau gofal. Mae hyfforddiant wedi cael ei ddarparu ac ar ôl iddo gael ei werthuso am y tro cyntaf ym mis Mawrth 2013, bwriedir ei gyflwyno ar lefel ehangach yn ystod 2013. Mae AGGCC yn cydnabod bod parhau i werthuso effeithiolrwydd y prosesau hyn yn bwysig a bod angen iddo ddangos y gwerth ychwanegol o ddefnyddio ymwelwyr annibynnol. Mae rheoleiddiwr profiadol yn gweithio am dri diwrnod yr wythnos tan fis Ebrill 2014 i arwain rhaglen werthuso ac adolygu i sicrhau bod prosesau newydd yn cael eu cynnwys a bod eu heffeithiolrwydd yn cael eu gwerthuso.

**Casgliad 18:** Mae'r Pwyllgor yn cytuno, gan fod adroddiadau'n ffordd allweddol o gael gafael ar wybodaeth, fod angen iddynt fod ar gael yn hwylus i bobl, o ran y ffordd y cânt eu drafftio ac o ran eu lleoliad. Dylid ystyried ymhle y darperir adroddiadau arolygu. Yn ogystal â'u darparu ar y we, dylai adroddiadau fod ar gael mewn mannau cyhoeddus ac ym mhob cartref gofal er mwyn i bobl hŷn a'u gofalwyr a'u teuluoedd allu eu gweld yn rhwydd. Mae angen i adroddiadau gael eu drafftio mewn ffordd sy'n hawdd ei deall ac mae angen iddynt fod yn glir ynglŷn â'r gwasanaethau y mae pob cartref yn eu darparu. Ac ystyried faint o bobl hŷn sydd â nam ar eu golwg, mae'n bwysig sicrhau bod adroddiadau'n cael eu cyhoeddi mewn ystod o fformatau hwylus.

**Ymateb:** Cyflwynodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) fformat symlach ar gyfer ysgrifennu adroddiadau arolygu ym mis Ebrill 2012 yn seiliedig ar bedair thema. Mae'r adroddiadau byrrach hyn yn welliant sylweddol o gymharu â'r hyn oedd ar waith yn flaenorol. Mae arolygwyr wedi cael cyfarwyddiadau i ysgrifennu adroddiadau ar gyfer y cyhoedd ac wedi cael canllawiau clir a hyfforddiant ar sut y dylai'r adroddiadau hyn gael eu hysgrifennu. Yn ogystal â threfniadau sicrhau ansawdd mewnol, bydd AGGCC yn cyflwyno paneli sicrhau ansawdd rhanbarthol a fydd yn cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u perthnasau yn ystod 2013-24. Diben hyn yw sicrhau bod adroddiadau yn glir ac yn ddefnyddiol i bobl sydd angen yr wybodaeth.

Mae gwelliant sylweddol yn eglurder yr adroddiadau wedi cael ei gyflawni. Ond, yn 2013 bydd AGGCC yn mynd gam ymhellach drwy ddatblygu a chyflwyno fframwaith beirniadu ansawdd a fydd yn galluogi pobl sy'n darllen adroddiadau i weld barn syml, un gair mewn perthynas â'r themâu sy'n rhan o'r adroddiad. Mae AGGCC hefyd yn ailstrwythuro'r wefan gyda'r bwriad o gyflwyno swyddogaeth chwilio syml a fydd o 2014 ymlaen yn caniatáu pobl i ddod o hyd i fath arbennig o wasanaeth yn ôl lefel ansawdd. Mae sylwadau'r Pwyllgor mewn perthynas ag

| |
|---|
| ehangu mynediad at adroddiadau wedi'u nodi ac mae AGGCC bellach yn ystyried sut y gall y fersiynau diweddaraf o'r adroddiadau fod ar gael mewn mannau cyhoeddus, mewn cartrefi gofal ac mewn ystod o ffurfiau. |

| |
|---|
| **Casgliad 19:** Gall economi perchnogaeth gymysg helpu i feithrin sector mwy amrywiol a mwy arloesol a darparu sylfaen gryfach ar gyfer darparu dewis a gwasanaethau o safon i nifer gynyddol o bobl hŷn y bydd angen y gwasanaethau hynny arnynt. Rhan allweddol o hynny yw bod y sector sydd heb fryd ar wneud elw'n gallu gwneud cyfraniad gwerthfawr o ran arloesi, gwerth am arian a sefydlogrwydd y ddarpariaeth. Rydym felly'n croesawu gwaith y Gweinidog gyda chyrff perthnasol i ddatblygu opsiynau ar gyfer modelau'r ddarpariaeth gofal preswyl yn y dyfodol. |
| **Ymateb:** Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod rhai pethau yn rhwystro mentrau cymdeithasol rhag tyfu, fel strwythurau llywodraethu, cyllid a risg, ond mae'n awyddus i archwilio ffyrdd i'w goresgyn ac i annog y pethau eraill y gall mentrau cymdeithasol eu cynnig i wella gallu a dewis yn y farchnad gofal preswyl. |